## ATODLEN 13

Rheoliad 38

### Diwygiadau i ddeddfwriaeth arall

**Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010**

**1.** Mae Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**2.** Yn rheoliad 3(a), yn lle “Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed Wedi’i Botelu (Cymru) 2007” rhodder “Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed Wedi’i Botelu (Cymru) 2015”.

**Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013**

**3.** Mae Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**4.** Yn Atodlen 1, hepgorer y cyfeiriad at “Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed Wedi’i Botelu (Cymru) 2007”.

**Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014**

**5.** Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**6.** Yn Atodlen 7, hepgorer paragraffau 49 a 50.

---

(**1**) O.S. 2010/66 (Cy. 16).
(**2**) O.S. 2013/479 (Cy. 55), diwygiwyd gan O.S. 2013/2493 (Cy. 242).
(**3**) O.S. 2014/2303 (Cy. 227).